



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG47179

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed (y Safonau)

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r Safonau

10 Mawrth 2023

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y cynigion i newid safonau perthnasol yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Hoffem ddiolch i bob ymatebydd am rannu ei farn â ni.

Y Camau y Mae Angen eu Cymryd

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae

Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: childcareandplaymailbox@gov.wales

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: [hyperlink](#)

Cynnwys

Cyflwyniad.....	5
Cynigion	5
Ymgysylltu.....	6
Trosolwg o'r ymatebion	6
Crynodeb o'r ymatebion	7
Adran 1 – Gofynion Cymorth Cyntaf.....	7
Cwestiwn 1.1.....	7
Cwestiwn 1.2.....	7
Cwestiwn 1.3.....	8
Cwestiwn 1.4.....	8
Cwestiwn 1.5.....	9
Cwestiwn 1.6.....	10
Cwestiwn 1.7.....	10
Cwestiwn 1.8.....	11
Cwestiwn 1.9.....	11
Cwestiwn 1.10.....	12
Cwestiwn 1.11.....	12
Adran 2 – Gwarchodwyr Plant.....	13
Cwestiwn 2.1.....	13
Cwestiwn 2.2.....	14
Cwestiwn 2.3.....	14
Adran 3 – Staff Eraill (Cymwysterau)	14
Cwestiwn 3.1.....	14
Cwestiwn 3.2.....	15
Cwestiwn 3.3.....	16
Adran 4 – Cymarebau Staffio (Gofal Dydd).....	19
Cwestiwn 4.1.....	19
Cwestiwn 4.2.....	20
Cwestiwn 4.3.....	21
Adran 5 – Ansawdd.....	21
Cwestiwn 5.1.....	21
Cwestiwn 5.2.....	22

Adran 6 – Diogelu	22
Cwestiwn 6.1	22
Cwestiwn 6.2	23
Cwestiwn 6.3	24
Cwestiwn 6.4	25
Adran 7 – Diwygiadau Eraill	25
Cwestiwn 7.1	25
Cwestiwn 7.2	26
Adran 8 – Cyfle Cyfartal	27
Cwestiwn 8.1	27
Cwestiwn 8.2	27
Cwestiwn 8.3	28
Cwestiwn 8.4	28
Adran 9 – Y Gymraeg.....	28
Cwestiwn 9.1	28
Cwestiwn 9.2	29
Y Camau Nesaf.....	29
Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr	30

Cyflwyniad

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir (ar gyfer plant hyd at 12 oed, Ebrill 2016) (y Safonau) yn gymwys i warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd i blant hyd at 12 oed. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o wahanol fathau o ddarpariaeth, gan gynnwys gwarchodwyr plant, gofal dydd, gofal plant y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored. Mae'r Safonau wedi'u llunio i helpu darparwyr i fodloni [Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd \(2010\)](#) fel y'u diwygiwyd.

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol [ymgyngoriad](#) ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar 28 Mehefin 2022 am gyfnod o 14 wythnos.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig newidiadau sy'n ymateb yn bennaf i'r argymhellion allweddol a wnaed gan [Adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir](#) a gyhoeddodd ei [adroddiad](#) yn 2019.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 7 Hydref. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynigion

Rhoddodd yr ymatebwyr adborth ar y newidiadau arfaethedig canlynol i'r Safonau yn ogystal â sylwadau ynghylch a oedd unrhyw newidiadau eraill y dylai Llywodraeth Cymru fod yn eu gwneud i'r Safonau diwygiedig a'r canllawiau cysylltiedig.

Cymorth Cyntaf – Safon 10

Rhoi mwy o eglurder o ran gofynion hyfforddiant cymorth cyntaf ar gyfer gwahanol leoliadau ynghyd â darparu meini prawf a gwybodaeth ychwanegol mewn Atodiad ar wahân **Canllawiau Cymorth Cyntaf ar gyfer Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Peditrig**.

Person Addas (Gwarchodwr Plant) – Safon 13(GP)

Cynnwys canllawiau ychwanegol (i'w cynnwys mewn atodiad **Canllawiau ar gyfer Cynorthwywyr gwarchodwyr plant**). Roedd y newidiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â chyfrifoldebau a rôl y gwarchodwyr plant cofrestredig wrth weithio gyda chynorthwywr gwarchod plant.

Cymwysterau gofal plant ar gyfer darparwyr gofal dydd – Safon 13: Person addas (GD)

Gwybodaeth newydd yn safon 13.10 (GD) mewn perthynas â staff sy'n gweithio tuag at gymhwyster, gan alluogi lleoliadau i gynnwys yr unigolion hynny sy'n gweithio tuag at gymhwyster yn y gymhareb dderbyniol o niferoedd staffio.

Cymarebau staffio – Staff ychwanegol – Safon 15

Cynigiwyd y dylid dileu Safon bresennol 15.3 o'r Safonau. Gwnaethom gynnig y dylid atgyfnerthu Safon 15.6 er mwyn lliniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â dileu'r safon ar gyfer staff ychwanegol.

Ansawdd – Safon 18

Darparu datganiad yn y Safonau ynghylch beth mae ansawdd yn ei olygu yng nghyd-destun darpariaeth gofal plant. Yn ogystal, newidiwyd Safonau 18.1 i 18.5 i adlewyrchu'r gofynion o dan Ansawdd yn gliriach.

Diogelu – Safon 20

Cynhwyswyd safon newydd yn 20.7 er mwyn amlinellu gofynion diogelu addas.

Mae Atodiad **Canllawiau Diogelu: Rolau a Chyfrifoldebau** yn manylu ar y mathau o rolau mewn gofal plant a gwaith chwarae a lefelau'r hyfforddiant diogelu sy'n briodol i wahanol rolau yn y sector.

Cyfle Cyfartal – Safon 16.1-16.3

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi sut y gall y Safonau gefnogi newid cadarnhaol o ran mynd i'r afael â hiliaeth er mwyn bwydo i mewn i waith ehangach i ystyried ymateb y sector gofal plant i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Ymgysylltu

Gwahoddwyd safbwyntiau fel rhan o gyfnod ymgynghori 14 wythnos o hyd rhwng 28 Mehefin a 7 Hydref 2022. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd modd i ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Roedd modd i ddarparwyr gofal plant ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad ac roedd cyfle iddynt hefyd gymryd rhan mewn gweithdai ar-lein wedi'u hwyluso gan y sefydliadau ambarél gofal plant ar ran Llywodraeth Cymru.

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a gyflwynodd eu safbwyntiau ac a fynychodd y sesiynau ymgynghori.

Trosolwg o'r ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 197 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan ystyried ymatebion i'r arolwg llawn ac ymatebion rhannol. O'r ymatebion hyn, cyflwynwyd 177 drwy'r arolwg ar-lein a chyflwynwyd 21 drwy e-bost. Mae 75 o'r ymatebwyr yn awyddus i barhau'n ddiennw. Cafwyd ymatebion o bob rhan o'r sector gofal plant i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwarchodwyr plant, darparwyr gofal dydd, cynrychiolwyr sefydliadau'r trydydd sector ac awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn a Chomisiynydd Plant Cymru.

Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y termau canlynol i nodi'r nifer perthnasol o ymatebion:

Llawer	Mwy na 70 y cant
Mwyafrif	Mwy na 50 y cant
Tua hanner	Rhwng 40 a 60 y cant
Lleiafrif	Llai na 50 y cant
Nifer bach	Llai nag 20 y cant
Nifer bach iawn	Llai na 10 y cant

Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r adran ganlynol yn nodi manylion yr ymatebion a'r sylwadau a gafwyd mewn perthynas â chwestiynau'r ymgynghoriad.

Adran 1 – Gofynion Cymorth Cyntaf (Safon 10: Gofal iechyd) Cwestiwn 1.1 Ydych chi'n cytuno y dylai fod gan gynorthwywyr gwarchodwyr plant dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig lawn 12 awr gyfredol os cânt eu gadael yn gwbl gyfrifol am y plant?

Ydw	167	85 y cant
Nac ydw	8	4 y cant
Ddim yn gwybod	6	3 y cant
Dim ymateb	16	8 y cant

Roedd llawer o'r ymatebwyr (85 y cant) yn cytuno y dylai fod gan gynorthwywyr gwarchodwyr plant dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig Lawn (FPFA) 12 awr gyfredol os byddant yn cael eu gadael yn gwbl gyfrifol am y plant, a nifer bach iawn o'r ymatebwyr (4 y cant) oedd yn anghytuno.

Roedd y sylwadau o blaid y cynnig yn nodi bod hyfforddiant cymorth cyntaf yn hanfodol i'r rheini sy'n gofalu am blant a bod y Dystysgrif FPFA yn sicrhau bod cynorthwywyr sy'n cael eu gadael yn gwbl gyfrifol am blant am unrhyw gyfnod o amser yn meddu ar y sgiliau priodol i allu ymdrin ag unrhyw sefyllfa bosibl lle y bydd angen sgiliau cymorth cyntaf.

Cyfeiriodd PACEY Cymru, sef y sefydliad sy'n hyrwyddo arferion gorau a chymorth i warchodwyr plant, at y sesiynau ymgynghori â gwarchodwyr plant lle cafwyd cefnogaeth unfrydol o blaid y cynnig.

O'r nifer bach iawn o ymatebwyr (4 y cant) nad oeddent yn cytuno â'r cynnig, roedd y rhesymau a nodwyd yn cyfeirio at ystyriaethau ariannol a'u barn bod y cwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng (EPFA) 6 awr yn ddigonol.

Cwestiwn 1.2: Ydych chi'n cytuno y dylai fod gan gynorthwywyr gwarchodwyr plant na chânt eu gadael yn gwbl gyfrifol am y plant dystysgrif gyfredol o gwrs 6 awr Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng?

Ydw	130	66 y cant
Nac ydw	38	19 y cant
Ddim yn gwybod	11	6 y cant
Dim ymateb	18	9 y cant

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (66 y cant) yn cytuno â'r cynnig os na chaiff cynorthwywyr gwarchodwyr plant eu gadael yn gwbl gyfrifol am y plant, y dylai fod

ganddynt dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng 6 awr gyfredol. Roedd nifer bach (19 y cant) yn anghytuno.

Roedd y sylwadau o blaid y cynnig yn cyfeirio at y ffaith fod y dull hwn yn gytbwys ac yn sicrhau bod gallu Cymorth Cyntaf priodol ar gael.

O blith y rheini a oedd yn anghytuno, roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn ymwneud â'r ffaith bod yr ymatebwyr hyn o'r farn y dylai fod gan gynorthwywyr gwarchodwyr plant dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig Lawn 12 awr er mwyn darparu hyblygrwydd ac ymateb i argyfyngau a allai godi'n sydyn. Nododd un awdurdod lleol y dylai fod gan bob cynorthwywr gwarchodwyr plant y cwrs 12 awr llawn gan y gall argyfyngau annisgwyl godi, er gwaethaf pob ymdrech, ac y gall fod angen y lefel hyfforddiant uchaf arnynt.

Cwestiwn 1.3: Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch Cymorth Cyntaf mewn lleoliadau Gwarchod Plant?

Roedd y sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- dylid ystyried hygyrchedd, argaeledd ac effaith cost hyfforddiant ar leoliadau
- dylid ystyried cyfnod paratoi ar gyfer newidiadau arfaethedig
- mae PACEY Cymru o blaid y dull a amlinellir yn yr atodiad ategol o ran pa elfennau o'r hyfforddiant y mae angen iddynt gael eu cyflwyno wyneb yn wyneb a pha elfennau y gellid eu cyflwyno'n rhithwir neu drwy hyfforddiant ar-lein
- roedd safbwyntiau amrywiol ynghylch amllder adnewyddu tystysgrifau gyda rhai o blaid adnewyddu bob tair blynedd ac eraill o'r farn y byddai cwrs gloywi bob blwyddyn yn fwy buddiol

Cwestiwn 1.4: Ydych chi'n cytuno â'r gofyniad bod gan o leiaf 1 oedolyn i bob 10 o blant dystysgrif gyfredol o Gymorth Cyntaf Pediatrig Llawn 12 awr mewn lleoliadau gofal dydd?

Ydw	151	77 y cant
Nac ydw	31	16 y cant
Ddim yn gwybod	5	3 y cant
Dim ymateb	10	5 y cant

Roedd llawer o'r ymatebwyr (77 y cant) yn cytuno ar gyfer lleoliadau gofal dydd bod yn rhaid sicrhau bod gan o leiaf 1 oedolyn i bob 10 o blant dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig Lawn 12 awr gyfredol, ond roedd nifer bach o'r ymatebwyr (16 y cant) yn anghytuno.

Er bod y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig, roedd pryderon o ran goblygiadau ariannol sicrhau bod staff yn bodloni'r gofyniad hyfforddiant 12 awr i leoliadau. Cododd y

Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) a Chlybiau Plant Cymru sy'n cynrychioli ac yn cefnogi'r sector meithrinfeydd a'r sector y tu allan i'r ysgol faterion ynghylch argaeledd a chostau'r cyrsiau hyfforddiant.

O blith y rheini a oedd yn anghytuno, nododd llawer ohonynt eu bod o'r farn y dylai mwy o staff neu'n wir y dylai pob aelod o'r staff feddu ar y dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig Lawn 12 awr a allai fod yn allweddol wrth ymateb i argyfwng. Er y derbyniwyd na fyddai pob aelod o staff yn meddu ar y sgiliau hyn cyn dechrau yn sector y blynyddoedd cynnar neu'r sector gofal plant, awgrymwyd y dylai'r safonau adlewyrchu'r ffaith y dylai pob aelod o staff gymhwyso o fewn 3 mis i ddechrau cyflogaeth ac y dylid cynnwys hynny fel rhan o [Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan](#)¹. Mynegodd rhai darparwyr bryderon ynghylch effaith cynaliadwyedd y cynigion ar eu lleoliadau gydag un ymatebydd yn cyfeirio at anhawster ddod o hyd i gysiau a oedd yn addas ar gyfer oriau clybiau y tu allan i'r ysgol.

Cwestiwn 1.5: Ydych chi'n cytuno bod yn rhaid i bob aelod arall o'r staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr/hyfforddeion) mewn lleoliadau gofal dydd fod â thystysgrif gyfredol o gwrs 6 awr Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng?

Ydw	119	60 y cant
Nac ydw	59	30 y cant
Ddim yn gwybod	9	5 y cant
Dim ymateb	10	5 y cant

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (60 y cant) o'r farn bod yn rhaid i bob aelod arall o'r staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr/hyfforddeion) mewn lleoliadau gofal dydd fod â thystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng 6 awr gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif o'r ymatebwyr (30 y cant) o blaid y cynnig hwn.

O blith y rheini a oedd o blaid, roedd rhai yn pryderu am yr heriau i leoliadau pe byddai'n rhaid i ddechreuwy'r newydd ymgymryd â'r cymhwyster cyn dechrau cyflogaeth. Awgrymwyd y dylai'r darparwr gyllido a chynnal y broses o gwblhau cymhwyster Cymorth Cyntaf perthnasol, a phe na fyddai gan yr aelod o staff gymhwyster adeg ei benodi, y dylai ei gwblhau o fewn cyfnod rhesymol fod yn un o'r amodau cyflogaeth. O blith y rheini nad oeddent o blaid y cynnig, mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai pob aelod o'r staff gan gynnwys gwirfoddolwyr/hyfforddeion fod â thystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig lawn ac roedd eraill o'r farn na ddylai'r gofyniad hwn fod yn gymwys i wirfoddolwyr a hyfforddeion ac y byddai'n cael effaith andwyol ar y gallu i recriwtio i'r sector.

¹ Mae Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar yn darparu adnodd i reolwyr asesu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gweithwyr newydd ac yn helpu i nodi, cofnodi a chynllunio eu hanghenion datblygu

Cwestiwn 1.6: Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch Cymorth Cyntaf mewn lleoliadau Gofal Dydd?

Roedd y sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn perthynas â Chymorth Cyntaf mewn lleoliadau gofal dydd yn cynnwys y canlynol:

- dylai'r safonau gyfeirio at asesiadau risg ar gyfer lleoliadau penodol o ran y gofynion Cymorth Cyntaf gan y gallai hyn arwain at allu nodi anghenion yn fanylach
- dylid cydnabod rôl dysgu yn yr amgylchedd naturiol a chynnwys Cymorth Cyntaf yn yr Awyr Agored fel rhan o unrhyw safon hyfforddiant Cymorth Cyntaf. (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- gellid lliniaru beichiau staffio a beichiau ariannol pe rhoddwyd cyfnod 'gras' i staff ymgymryd â'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf perthnasol. Neu y gellid cynnwys gofynion hyfforddiant Cymorth Cyntaf Peditrig fel rhan o gymwysterau gofal plant. (NDNA)
- byddai rhyddhau aelodau o staff am 12 awr i ymgymryd â'r hyfforddiant yn creu costau ychwanegol sylweddol i leoliadau, gan y byddai'n rhaid talu aelodau eraill o staff i gyflenwi pan fyddai'r staff yn mynychu hyfforddiant, neu fel arall dalu tâl ychwanegol i'r staff fynychu hyfforddiant ar ddydd Sadwrn. Mae'n bosibl y byddai'n rhaid i rai lleoliadau gau er mwyn galluogi'r staff i fynychu'r hyfforddiant (Mudiad Meithrin)
- mae'n hanfodol bod POB aelod o staff yn meddu ar hyfforddiant cymorth cyntaf perthnasol. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn hawdd cael gafael ar hyfforddiant o'r fath ac mae'r costau sy'n gysylltiedig â sicrhau bod staff yn gymwys yn gymharol sylweddol i feithrinfeydd bach, gan roi straen ariannol mawr ar y sector gofal plant (darparwr gofal plant)

Chwarae Mynediad Agored – Safon 10.27-10.29:

Cwestiwn 1.7: Ydych chi'n cytuno â'r gofyniad bod gan o leiaf 1 oedolyn i bob 13 o blant dystysgrif gyfredol o Gymorth Cyntaf Peditrig Llawn 12 awr mewn lleoliadau Chwarae Mynediad Agored sy'n derbyn plant o dan 8 oed?

Ydw	129	65 y cant
Nac ydw	34	17 y cant
Ddim yn gwybod	13	7 y cant
Dim ymateb	21	11 y cant

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (65 y cant) yn cytuno â'r gofyniad bod gan o leiaf 1 oedolyn i bob 13 o blant dystysgrif Cymorth Cyntaf Peditrig Llawn 12 awr gyfredol mewn lleoliadau chwarae mynediad agored sy'n derbyn plant o dan 8 oed. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr (17 y cant) yn anghytuno.

O'r rheini a oedd o blaid, roedd y sylwadau yn cynnwys bod y gymhareb yn ymddangos yn gymesur ac yn gydnaws â'r gymhareb staffio ofynnol mewn darpariaeth chwarae mynediad agored i blant o dan 8 oed. Fodd bynnag, gofynnodd ymatebwyr eraill am fwy o eglurder o ran y rheswm dros y gwahaniaeth yn y cymarebau rhwng plant o dan 8 oed a phlant dros 8 oed.

Cafwyd amrywiaeth o sylwadau gan y rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na ddylai fod unrhyw wahaniaeth yn y cymarebau rhwng lleoliadau gofal dydd a lleoliadau chwarae mynediad agored ac roedd eraill yn pwysleisio y dylai pob aelod o staff feddu ar dystysgrif Cymorth Cyntaf Peditrig Lawn 12 awr os oeddent yn gweithio gyda phlant. Roedd Chwarae Cymru, sef yr elusen genedlaethol ar gyfer chwarae plant, o'r farn bod y gymhareb hon yn anghymesur o ystyried lefel y risg dan sylw.

Cwestiwn 1.8: Ydych chi'n cytuno â'r gofyniad bod yn rhaid i o leiaf un person sydd â thystysgrif gyfredol o Gymorth Cyntaf Peditrig Lawn 12 awr fod yn bresennol bob amser mewn lleoliadau Chwarae Mynediad Agored sy'n derbyn plant dros 8 oed?

Ydw	145	73 y cant
Nac ydw	23	12 y cant
Ddim yn gwybod	9	5 y cant
Dim ymateb	20	10 y cant

Roedd llawer o'r ymatebwyr (73 y cant) yn cytuno â'r gofyniad y dylai o leiaf un person sydd â thystysgrif Cymorth Cyntaf Peditrig Lawn 12 awr gyfredol fod yn bresennol bob amser mewn lleoliadau chwarae mynediad agored sy'n derbyn plant dros 8 oed. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr (12 y cant) yn anghytuno.

O blith y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig, roedd y sylwadau yn cynnwys fod y cynnig yn ymateb cymesur i'r risg. Roedd y sylwadau gan y rheini a oedd yn anghytuno yn cynnwys y rheini a oedd o'r farn y dylai nifer y staff â thystysgrif Cymorth Cyntaf Peditrig lawn fod yn uwch ac eraill a oedd o'r farn y dylid sicrhau cysondeb o ran cymarebau ar draws y sector gofal plant a chwarae.

Cwestiwn 1.9: Ydych chi'n cytuno y dylai hyfforddiant Cymorth Cyntaf mewn lleoliadau Chwarae Mynediad Agored, mewn perthynas â phob aelod arall o'r staff, adlewyrchu amgylchiadau'r lleoliad ar sail asesiad risg?

Ydw	115	58 y cant
Nac ydw	32	16 y cant
Ddim yn gwybod	26	13 y cant
Dim ymateb	23	12 y cant

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (58 y cant) yn cytuno y dylai hyfforddiant Cymorth Cyntaf mewn lleoliadau chwarae mynediad agored, mewn perthynas â phob aelod arall o'r staff, adlewyrchu amgylchiadau'r lleoliad ar sail asesiad risg. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr (16 y cant) yn anghytuno.

O blith y rheini a oedd yn cytuno, roedd y sylwadau o blaid y cynnig yn nodi ei fod yn ymateb cymesur. O blith y rheini a oedd yn anghytuno, roedd y sylwadau yn cyfeirio at y ffaith y dylai fod gan bob aelod o staff gymhwyster Cymorth Cyntaf, heb ystyried asesiadau risg, ac y dylid sicrhau cysondeb ar draws y sector gofal plant a chwarae o ran pa gymwysterau fyddai'n ofynnol. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith na all asesiadau risg ymdrin â phob sefyllfa bosibl gan y gall pethau newid a bod angen i staff feddu ar wybodaeth Cymorth Cyntaf er mwyn ymdrin ag amgylchiadau annisgwyl.

Cwestiwn 1.10: Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch Cymorth Cyntaf mewn lleoliadau Chwarae Mynediad Agored?

Pwysleisiodd y sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn y canlynol:

- yr angen i bob aelod o staff feddu ar gymwysterau Cymorth Cyntaf ni waeth beth fo natur y lleoliad
- dylid ystyried hygrychedd, argaeledd ac effaith cost hyfforddiant ar leoliadau
- dylid cynnwys Cymorth Cyntaf yn yr Awyr Agored fel rhan o unrhyw safon hyfforddiant Cymorth Cyntaf er mwyn helpu i ddarparu cyfleoedd chwarae mynediad agored a all gynnwys defnydd mynych o gyfleusterau chwarae antur, parciau a choetiroedd (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- ymatebion a oedd wedi'u llywio gan y safonau sy'n gymwys i fynediad agored a gyhoeddwyd yn 2002 ac sy'n adlewyrchu'r ddealltwriaeth ac arferion cyfredol (Chwarae Cymru)

Cwestiwn 1.11: Rhaid i gynorthwywyr gwarchodwyr plant gwblhau eu hyfforddiant 6 awr Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng cyn dechrau gweithio, ond mae'r safonau yn nodi y dylai dechreuwyr newydd mewn lleoliadau gofal dydd ymgymryd â chwrs 6 awr Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng o fewn tri mis i ddechrau'r gwaith. A ddylai fod yn ofynnol cael tystysgrif gyfredol o gwrs 6 awr Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng cyn dechrau gweithio mewn lleoliad gwarchod plant a gofal dydd?

Dylai	69	35 y cant
Na ddylai	92	47 y cant
Ddim yn gwybod	15	8 y cant
Dim ymateb	19	11 y cant

Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr (35 y cant) yn cytuno y dylai tystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig mewn Argyfwng 6 awr gyfredol fod yn ofynnol cyn dechrau gweithio mewn lleoliad gwarchod plant ac mewn lleoliad gofal dydd, gyda thua hanner yr ymatebwyr (47 y cant) o'r farn na ddylai bod angen hynny.

O blith y rheini a oedd o blaid, tynnwyd sylw at gysondeb rhwng gwahanol rannau o'r sector, ac at bwysigrwydd sicrhau bod y staff yn gymwys wrth ofalu am blant.

Roedd y sylwadau nad oeddent o blaid y cynnig hwn yn cynnwys y sylwadau gan NDNA a gyfeiriodd at y gwrthwynebiad unfrydol at y cynnig gan yr aelodau hynny a fynychodd ddigwyddiadau rhwydweithio a gweminar NDNA. Cyfeiriwyd at y gwahanol amgylcheddau y mae staff gofal dydd a gwarchodwyr plant yn gweithio o'u mewn, gan nodi bod mwy o staff a mwy o gymorth ar gael mewn lleoliadau gofal dydd pe byddai argyfwng Cymorth Cyntaf. Mynegwyd pryderon hefyd am y pwysau sy'n gysylltiedig â sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant o fewn y cyfnod 3 mis, yn enwedig lle gall fod pryderon o ran trosiant staff.

Cyfeiriodd ymatebwyr eraill hefyd at faterion o ran cyllid, mynediad ac argaeledd hyfforddiant Cymorth Cyntaf a fyddai'n achosi anawsterau wrth fodloni'r gofyniad hwn.

Adran 2 – Gwarchodwyr Plant

Cwestiwn 2.1 Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys yr wybodaeth ychwanegol sydd wedi'i nodi yn y safonau ac Atodiad A mewn perthynas â chyflogi cynorthwywyr gwarchodwyr plant?

Ydw	84	42 y cant
Nac ydw	7	4 y cant
Ddim yn gwybod	41	21 y cant
Dim ymateb	63	33 y cant

Roedd tua hanner yr ymatebwyr (42 y cant) yn cytuno y dylid cynnwys y wybodaeth ychwanegol sydd wedi'i nodi yn y safonau ac Atodiad A mewn perthynas â chyflogi cynorthwywyr gwarchodwyr plant. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr (4 y cant) yn anghytuno, ond roedd cyfradd ymateb y cwestiwn hwn yn gymharol isel ac roedd 33% o'r ymatebion yn wag.

Roedd y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at yr angen i'r safonau fod yn gyson ar draws y sector gofal plant ac y dylid ystyried p'un a ellid caniatáu i gynorthwywyr gwarchodwyr plant nad ydynt yn gweithio ar eu pen eu hunain gyda phlant i allu gweithio tuag at gwrs priodol yn unol â'r dull a gynigiwyd ar gyfer lleoliadau gofal dydd llawn. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r eglurder a'r cysondeb a ddarparwyd gan y wybodaeth arfaethedig ychwanegol a chafwyd sylwadau yn cyfeirio at y ffaith y byddai hyn yn helpu rhieni.

Cwestiwn 2.2 Ydych chi'n cytuno bod yr wybodaeth yn Atodiad A yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i gefnogi'r gwarchodwr plant i reoli cynorthwyr gwarchodwr plant a'i waith?

Ydw	76	38 y cant
Nac ydw	7	4 y cant
Ddim yn gwybod	43	22 y cant
Dim ymateb	67	36 y cant

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn. Er bod 36 o'r ymatebion yn wag, roedd 38 y cant o'r farn bod Atodiad A yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i gefnogi'r gwarchodwr plant i reoli cynorthwyr gwarchodwr plant a'i waith.

Nododd yr ymatebwyr awgrymiadau o ran y wybodaeth ychwanegol y gellid ei chynnwys yn yr Atodiad, gan gynnwys:

- darparu arweiniad cliriach ynghylch myfyrwyr a all fod ar leoliad mewn lleoliad gwarchod plant neu wirfoddolwyr ehangach nad ydynt yn gweithio fel cynorthwyr gwarchodwr plant
- eglurhad ynghylch yr isafswm oedran y gellir cyflogi unigolyn fel cynorthwyr
- cyngor pellach am y cymhwyster priodol neu hyfforddiant penodol i gynorthwyr gwarchodwr plant nad ymdriniwyd ag ef yn flaenorol yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru

Cwestiwn 2.3 Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch cynorthwyr gwarchodwr plant?

Yn y sylwadau ychwanegol a gafwyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, pwysleisiodd yr ymatebwyr y canlynol:

- yr angen am gysondeb o ran safonau ar draws pob lleoliad gofal plant mewn perthynas â chymarebau staffio a chymwysterau staffio
- dylid ystyried trefniadau i gynorthwyr gwarchodwr plant gael gafael ar gyllid ar gyfer unrhyw hyfforddiant gorfodol

Adran 3 – Staff Eraill (Cymwysterau)

Cwestiwn 3.1 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig bod staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau Lefel 2 a 3 yn cael eu cynnwys yn y cymarebau staffio mewn lleoliadau gofal dydd llawn?

Ydw	131	66 y cant
Nac ydw	18	9 y cant
Ddim yn gwybod	4	2 y cant
Dim ymateb	42	22 y cant

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (66 y cant) yn cytuno â'r cynnig y gellir cynnwys staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau Lefel 2 a 3 yn y cymarebau staffio mewn lleoliadau gofal dydd llawn. Nifer bach iawn o'r ymatebwyr (9 y cant) a oedd yn anghytuno.

Cydnabu'r ymatebwyr ei bod hi'n anodd recriwtio ar hyn o bryd ac y byddai hi'n haws cydymffurfio â'r cymarebau pe gellid cynnwys staff sy'n gweithio tuag at gymhwyster yn y cymarebau staffio. Cyfeiriodd NDNA a Blynyddoedd Cynnar Cymru, sef y sefydliad sy'n cynrychioli sector y Blynyddoedd Cynnar, at adborth o ddigwyddiadau a gynhaliwyd i gefnogi'r ymgynghoriad er mwyn casglu safbwyntiau darparwyr. Yn y ddau achos, roedd darparwyr yn croesawu'r cynnig. Cyfeiriodd adborth NDNA at eglurder y canllawiau ategol. Roedd Blynyddoedd Cynnar Cymru a'r ymatebwyr eraill o'r farn y byddai angen gwaith monitro gofalus er mwyn sicrhau bod y cymhwyster yn cael ei gyflawni o fewn terfynau amser penodedig clir. Roedd sylwadau eraill yn cyfeirio at y ffordd y byddai'r cynnig hwn yn cefnogi prentisiaethau gofal plant.

Cwestiwn 3.2 Ydych chi'n cytuno â'r ganran o'r staff (20 y cant) sy'n gweithio tuag at gymwysterau Lefel 2 a 3 y cynigir eu bod yn cael eu cynnwys yn y cymarebau staffio mewn lleoliadau gofal dydd llawn?

Ydw	119	60 y cant
Nac ydw	27	14 y cant
Ddim yn gwybod	4	2 y cant
Dim ymateb	45	24 y cant

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (60 y cant) yn cytuno â'r ganran o'r staff (20 y cant) sy'n gweithio tuag at gymwysterau Lefel 2 a 3 y cynigir eu bod yn cael eu cynnwys yn y cymarebau staffio mewn lleoliadau gofal dydd llawn. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr (14 y cant) yn anghytuno.

O blith yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno, gofynnodd rhai ohonynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin sef y sefydliad sy'n cefnogi sector cyfrwng Cymraeg y Blynyddoedd Cynnar, am eglurder ynghylch a fyddai'r 20 y cant yn gymwys i'r lefelau staffio ar draws y ddarpariaeth gyfan neu i ystafell benodol.

O blith yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno, roedd y sylwadau yn amrywio o'r rheini a oedd o'r farn y dylai'r ganran fod yn uwch i'r rheini a oedd o'r farn bod 20 y


cant yn rhy uchel neu rai, gan gynnwys un awdurdod lleol, a oedd o'r farn mai dim ond i staff â chymhwyster lefel 2 sy'n gweithio tuag at gymhwyster lefel 3 y dylai'r cynnig fod yn gymwys.

Cwestiwn 3.3 A ddylai Llywodraeth Cymru ystyried yr elfen o 'weithio tuag at gymhwyster' ar gyfer lleoliadau eraill? Os felly, pa leoliadau? Yn eich barn chi, pa ganran o'r staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau Lefel 2 a 3 y mae'n briodol eu cynnwys yn y cymarebau staffio?

Gofynnwyd cwestiwn 3.3 mewn perthynas â mathau eraill o leoliadau gofal plant h.y. mynediad agored sesiynol a lleoliadau o fath 'arall'.


Ymatebodd 74 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn mewn perthynas â **Gofal Sesiynol**, a gadawodd 120 o ymatebwyr yr ymateb yn wag. O blith y 74 o ymatebwyr, nododd chwech ohonynt na ddylid cynnwys unrhyw staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau yn y cymarebau. O blith y rheini a nododd ganran uwch na 0, roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

Ffigur 1: Canran a awgrymwyd o ran y staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau – Gofal Sesiynol




Ymatebodd 58 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn mewn perthynas â **Chwarae Mynediad Agored**. Gadawodd 139 o ymatebwyr y cwestiwn yn wag. O blith y rheini a ymatebodd, nododd chwech ohonynt na ddylid cynnwys unrhyw staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau yn y cymarebau. O blith y rheini a nododd ganran uwch na 0, roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

Ffigur 2: Canran a awgrymwyd o ran y staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau – Chwarae Mynediad Agored



Ymatebodd 40 o ymatebwyr i'r cwestiwn mewn perthynas â lleoliadau gofal plant o fath **Arall**. Gadawodd 156 o ymatebwyr yr ymateb yn wag. O blith y rheini a ymatebodd, nododd saith ohonynt na ddylid cynnwys unrhyw staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau yn y cymarebau. O blith y rheini a nododd ganran uwch na 0, roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

Ffigur 3: Canran a awgrymwyd o ran y staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau – Arall



Ym mhob categori uchod, dangosodd yr ymatebwyr ffafriaeth gyffredinol tuag at gynnwys cyfrannau cymharol fach o staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau yn y cymarebau staffio. Dewisodd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr i bob cwestiwn gyfran o dan 50 y cant. Ym mhob achos, roedd yr ystod fwyaf poblogaidd rhwng 10 y cant ac 20 y cant.

Roedd y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- yr angen i gynnal disgwyliadau cyson ar draws yr amrywiaeth o leoliadau a darparwyr wrth ymdrin â rheoliadau sy'n ymwneud â'r safonau gofynnol cenedlaethol
- dylid sicrhau cysondeb ar draws gwahanol leoliadau
- mae angen ystyried maint y lleoliad a'r niferoedd gwirioneddol o bobl, gan beidio â chosbi lleoliadau llai
- byddai dull hyblyg mewn perthynas â chymwysterau yn y sector y tu allan i'r ysgol yn helpu clybiau i barhau wedi'u cofrestru ac ar agor ar adeg pan oeddent yn wynebu heriau recriwtio sylweddol. Roedd clybiau yn ei chael hi'n anodd cynnig oriau hwy neu gyflogau uwch ac yn wynebu anawsterau wrth ddod o hyd i staff pan oedd angen iddynt weithio oriau anghymdeithasol y tu allan i'r diwrnod ysgol a oedd yn effeithio ar eu trefniadau gofal plant eu hunain.
- mae angen ystyried y mater hwn ymhellach mewn perthynas â chwarae mynediad agored er mwyn ystyried y gwahaniaethau rhwng darpariaeth dymhorol a darpariaeth drwy gydol y flwyddyn.

Cwestiwn 3.4 Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch cymwysterau gofal plant ar gyfer gofal dydd?

Roedd y sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- byddai cyflwyno cymwysterau pontio er mwyn galluogi newydd-ddyfodiaid o ddisgyblaethau eraill i gymhwyso'n gynharach yn cefnogi'r argyfwng recriwtio presennol y mae'r sector gofal plant yn ei wynebu
- dylai'r rhestr o gymwysterau a dderbynnir i'w hadolygu gynnwys athrawon ysgol gynradd cymwysedig. Neu gwrs byr i ymdrin â'r elfennau yr ystyrir eu bod ar goll o'u cymhwyster lefel gradd
- cydnabyddiaeth er ei bod hi'n anodd recriwtio y dylid anelu at sicrhau bod gan bawb sy'n gweithio yn y sector gofal plant gymhwyster lefel 3 o leiaf
- dylid sicrhau bod cwrs trosglwyddo o Gynorthwydd Addysgu i Waith Chwarae/ CCLPD² ar gael Byddai hyn o fudd penodol i ddarparwyr gofal sesiynol.
- mae argyfwng staffio yn golygu bod dyfodol y sector gofal plant yn y fantol – mae'n bwysig atgyfnerthu'r gweithlu

² Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

- dylid cynnig y cyfle i bob aelod o staff gwblhau cymhwyster ni waeth faint o oriau y mae'n eu gweithio
- dylid cynnig opsiwn dull carlam i staff o ansawdd uchel pan fydd y broses o ymgymryd â hyfforddiant/y fframwaith newydd yn cymryd yn rhy hir

Adran 4 – Cymarebau Staffio (Gofal Dydd)

Cwestiwn 4.1 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r safon sy'n ei gwneud yn ofynnol i leoliadau gofal dydd llawn sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 20 neu fwy o blant beidio â chyfrif rheolwyr cymwys yn eu cymarebau staffio?

Ydw	89	45 y cant
Nac ydw	37	19 y cant
Ddim yn gwybod	19	10 y cant
Dim ymateb	50	26 y cant

Roedd tua hanner yr ymatebwyr (45 y cant) yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r safon sy'n ei gwneud yn ofynnol i leoliadau gofal dydd llawn sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 20 neu fwy o blant beidio â chyfrif rheolwyr cymwys yn eu cymarebau staffio. Nid oedd nifer bach o'r ymatebwyr (19 y cant) o blaid y cynnig hwn.

Roedd y rheini a oedd o blaid yn cynnwys pawb a fynychodd y digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd gan NDNA. Roedd y sawl a fynychodd y digwyddiadau hynny yn cydnabod y byddai'r cynnig hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt wrth ymateb i argyfyngau a materion staffio.

Cafodd hyn ei adlewyrchu mewn ymatebion eraill hefyd, gydag ymatebwyr yn croesawu'r gallu i wneud eu penderfyniadau staffio eu hunain, yn enwedig pan fo lefelau presenoldeb yn is na'r niferoedd cofrestredig. Fodd bynnag, cyfeiriodd NDNA hefyd at safbwyntiau eraill a fynegwyd yn y digwyddiadau gan y rheini a oedd o'r farn y dylid cadw'r gofyniad ond y dylai fod yn gymwys i nifer mwy o blant cofrestredig neu fel arall y dylai gyfeirio at y niferoedd sy'n bresennol.

Roedd Blynyddoedd Cynnar Cymru yn croesawu'r cynnig gan nodi y byddai o gymorth yn ystod cyfnodau lle ceir anawsterau recriwtio ond roedd yn poeni am y pwysau ar reolwyr pe byddai'r safon yn cael ei dileu'n llwyr. Cyfeiriodd at y gwaith gweinyddol a'r gwaith ymgysylltu hanfodol y mae angen i reolwyr ei wneud a allai gael effaith andwyol ar y cymarebau plant: oedolion os nad oedd y rheolwyr yn staff ychwanegol:

Roedd sylwadau eraill a gafwyd mewn ymateb i'r cynnig hwn yn cyfeirio at y pwysau roedd cael aelod ychwanegol o staff yn ei roi ar leoliadau bach. Nododd un ymatebydd pe byddai'r rheolwr yn cael ei gynnwys yn y cymarebau y byddai hynny'n helpu i sicrhau bod y busnes yn fy hyfyw. Roedd y sylwadau hefyd yn cynnwys cyfeiriad at lacio'r safon hon fel rhan o'r ymateb i COVID-19 a sut y llwyddodd hynny i roi'r hyblygrwydd yr oedd ei angen ar ddarparwyr i reoli materion staffio.

Roedd y sylwadau a gyflwynwyd ar ran Mudiad Meithrin hefyd yn croesawu'r cynnig ac roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'n helpu gyda staffio a chostau pe na fyddai angen i'r rheolwr fod yn aelod ychwanegol o staff drwy'r dydd. Fodd bynnag, teimlwyd hefyd y byddai angen sicrhau o hyd bod digon o amser i reolwyr ymgymryd â'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â'u rôl.

Nododd y sylwadau eraill a gafwyd o blaid y cynnig:

- y byddai'n helpu i sicrhau cynaliadwyedd parhaus y sector gofal plant a chwarae
- y byddai'n galluogi lleoliadau i ehangu eu busnes naill ai o ran niferoedd neu o ran y mathau o ddarpariaeth a gynigir
- mai dim ond er mwyn cynnig hyblygrwydd ac fel rhan o ymateb i faterion byr rybudd y dylid ei ddefnyddio yn hytrach na'i ddefnyddio'n rheolaidd.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynnig yn cyfaddawdu ansawdd y gofal mewn rhai lleoliadau ac roedd eraill yn pryderu y byddai dileu'r safon yn cynyddu llwyth gwaith rheolwyr y byddai angen iddynt ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol ac ymdrin â digwyddiadau annisgwyl drwy gydol y dydd, yn ogystal â chaniatáu amser ar gyfer trafodaethau ag amrywiaeth o bobl fel rhieni, gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd ac ati.

Cwestiwn 4.2 Ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i safon 15.6(GD) yn rhoi digon o eglurder ynghylch sut gall lleoliadau reoli cymarebau pan fo gofyn i staff dreulio amser ar dasgau eraill?

Ydw	88	44 y cant
Nac ydw	30	15 y cant
Ddim yn gwybod	23	12 y cant
Dim ymateb	54	29 y cant

Roedd tua hanner yr ymatebwyr (44 y cant) o'r farn bod y diwygiadau i safon 15.6(GD) yn rhoi digon o eglurder ynghylch sut gall lleoliadau reoli cymarebau pan fo gofyn i staff dreulio amser ar dasgau eraill. Fodd bynnag, nid oedd 15 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno. Dylid nodi nad ymatebodd 28 y cant o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

O blith y rheini a oedd yn anghytuno, roedd y sylwadau yn adlewyrchu pryderon ynghylch sut y byddai AGC yn sicrhau na fyddai safonau yn gostwng; ac awgrymodd eraill nad oes unrhyw ffordd o gadarnhau a yw'r rheolwyr yn ymgymryd â gweithgareddau gweinyddol yn ystod y cyfnod a neilltuwyd neu yn ymgymryd â nhw y tu allan i oriau swyddfa.

Roedd rhai awdurdodau lleol o'r farn y dylai safon 15.5 fod yn fwy penodol ac y dylid rhoi mwy o eglurder ynghylch safon 15.6.

O blith yr ymatebwyr (12 y cant) a ddarparodd ymateb 'ddim yn gwybod', roedd y sylwadau ategol yn cyfeirio at y canlynol:

- yr angen am fwy o eglurder a chysondeb yn y dull gweithredu a fabwysiedir ym mhob rhan o'r sector gofal plant
- pryder na fyddai lleoliadau yn cydymffurfio â'r safon ac y byddai llwyth gwaith rheolwyr yn cynyddu
- yr angen i lunio barn ar bob lleoliad gofal plant unigol a'i amgylchiadau

Cwestiwn 4.3 Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch cymarebau staffio mewn lleoliadau gofal dydd?

Roedd y sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- pryder ynghylch y newid o ran geiriad safon bresennol 15.6 a safon ddiwygiedig 15.5(GD) o ran newid o 'gall fod yn ofynnol' i 'bydd yn ofynnol' mewn perthynas â thasgau sy'n effeithio ar y cymarebau oedolion: plant gofynnol. Bydd angen eglurder o ran sut mae hyn yn berthnasol i staff sy'n aros yn yr ystafell ond sy'n gwneud pethau eraill am gyfnod byr e.e. paratoi byrbrydau
- heriau staffio ers y pandemig. Mae angen cyflwyno camau diogelu i'r gweithlu i gyd-fynd â'r newidiadau i'r safon ar gyfer gweithwyr ychwanegol, er mwyn cefnogi darparwyr i wneud dewisiadau busnes synhwyrol a phragmataidd ar gyfer defnyddio staff yn effeithlon, ond gan sicrhau hefyd y caiff aelodau unigol o staff eu diogelu rhag gorfod cwblhau tasgau rheoli a thasgau gweinyddol yn eu hamser eu hunain
- os cedwir y gofyniad am staff ychwanegol, dylai fod yn berthnasol i'r niferoedd sy'n mynychu yn hytrach na'r niferoedd sydd wedi'u cofrestru.
- mae angen eglurhad am y gymhareb staff cymwysedig sydd ei hangen pan fydd mwy o staff yn gweithio mewn lleoliadau na'r nifer sydd ei angen i fodloni'r cymarebau staffio gofynnol.

Adran 5 – Ansawdd

Cwestiwn 5.1 Ydych chi'n cytuno bod yr wybodaeth ehangach sydd wedi'i nodi yn y fersiwn a gynigir o Safon 18 yn cefnogi gwelliant parhaus gwasanaethau gofal plant o ansawdd?

Ydw	113	57 y cant
Nac ydw	10	5 y cant
Ddim yn gwybod	15	8 y cant
Dim ymateb	59	30 y cant

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (57 y cant) yn cytuno bod y wybodaeth ehangach sydd wedi'i nodi yn y fersiwn a gynigir o Safon 18 yn cefnogi gwelliant parhaus gwasanaethau gofal plant o ansawdd.

Mae'r ymatebwyr yn cydnabod gwerth gofal plant o ansawdd uchel ac yn croesawu'r wybodaeth ehangach fel rhywbeth cadarnhaol. Roedd Comisiynydd Plant Cymru o'r farn bod y datganiad ehangach yn atgyfnerthu'r prosesau ar gyfer rhoi llais i blant wrth lywio ansawdd darpariaeth gofal ac yn awgrymu meysydd i'w gwella yn unol â CCUHP (erthygl 12). Croesawodd yr ymatebwyr hefyd y cysylltiadau â'r broses o ddatblygu fframwaith ansawdd Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar.

Cwestiwn 5.2 Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch Ansawdd?

Roedd y sylwadau ychwanegol a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- Ceisiadau am safon ansawdd gyffredinol i'w dilyn ledled Cymru gan fod llawer o leoliadau yn defnyddio gwahanol gynlluniau
- byddai'n braf gweld sut y dylid defnyddio/dogfennu'r wybodaeth ychwanegol yn ymarferol, rhoi hyfforddiant o ran y disgwyliadau a'r fframweithiau a awgrymir
- dylai lleoliadau bob amser sicrhau bod cyfleoedd DPP³ ar gael i'r staff a dylent helpu'r staff i ymdrin â'r bylchau yn eu gwbyodaeth drwy arfarniadau/sesiynau goruchwyllo rheolaidd
- yn unol â Fframwaith Ansawdd ECEC⁴, byddai'n ddefnyddiol creu cysylltiadau uniongyrchol i adnoddau/hyfforddiant penodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Safonau yn ddogfen ymarferol i ymarferwyr ei defnyddio.
- byddai gan weithwyr chwarae cymwysedig ddealltwriaeth glir o nodweddion ansawdd, gan fod ansawdd yn sail i gymwysterau gwaith chwarae. (Chwarae Cymru)
- cysondeb ledled Cymru o ran dogfennaeth i gefnogi gofynion Estyn ac AGC
- mae'r ffocws ychwanegol ar sicrhau ansawdd drwy fyfyrrio, adolygu a chynllunio ar gyfer gwella yn gydnaws â'r fframwaith arolygu ar y cyd ac yn debygol o annog a chefnogi lleoliadau a darparwyr wrth ymgymryd â'r gwaith hwn
- bydd angen cymorth, cyllid a threfniadau hyfforddi a mentora ychwanegol ar leoliadau er mwyn deall ystyr ansawdd a sut y gallant ei fonitro.

Adran 6 – Diogelu

Cwestiwn 6.1 Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn orfodol i bob aelod staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae ddilyn hyfforddiant diogelu?

Ydw	139	70 y cant
Nac ydw	3	2 y cant
Ddim yn gwybod	2	1 y cant
Dim ymateb	53	27 y cant

³ Datblygiad Proffesiynol Parhaus

⁴ Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar

Roedd llawer o'r ymatebwyr (70 y cant) yn cytuno â'r cynnig y dylai fod yn orfodol i bob aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae ddilyn hyfforddiant diogelu, a dim ond nifer bach iawn (2 y cant) oedd yn anghytuno.

Er bod llawer o blaid y cynigion â sylwadau a oedd yn cynnwys y ffaith bod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb a bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth iddo, mynegwyd pryderon am y costau a fyddai'n gysylltiedig â sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant diogelu ac ymarferoldeb trefnu i bob aelod o staff fynychu cyrsiau. Awgrymwyd y dylid rhoi cyfnod addas o amser i ddarparwyr fodloni'r gofyniad hwn ac y dylai awdurdodau lleol ddarparu digon o adnoddau i'w helpu i wneud hynny.

Cyflwynwyd sylwadau hefyd mewn perthynas â chyflwyno cyrsiau a lleisiwyd pryderon ynghylch lefel y dysgu a geir drwy hyfforddi o bell. Fodd bynnag, roedd sylwadau eraill o blaid cyfleoedd dysgu ar-lein er mwyn helpu staff i gael gafael ar hyfforddiant perthnasol.

Nododd Chwarae Cymru gan fod gwybodaeth ac ymarfer diogelu eisoes wedi'u cynnwys fel rhan o gymwysterau gwaith chwarae, y byddai'r gofyniad am hyfforddiant diogelu penodol ychwanegol yn dibynnu ar gyd-destun cyflogaeth yr aelod o staff. Er enghraifft, roedd o'r farn er y gallai fod yn rhesymol disgwyl i weithwyr chwarae cymwysedig llawn amser a gyflogir drwy gydol y flwyddyn ymgymryd â hyfforddiant diogelu penodol, y byddai'r gofyniad o ran hyfforddiant ychwanegol ac eithrio ymwybyddiaeth sylfaenol o faterion diogelu i staff sy'n gweithio mewn lleoliadau sydd ond yn gweithredu am bythefnos neu dair wythnos bob blwyddyn yn anghymesur.

Cwestiwn 6.2 Ydych chi'n cytuno y dylai fod gofynion hyfforddi gwahanol yn ôl y rolau gwahanol a ysgwyddir o fewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae? Ydy Atodiad C yn adlewyrchu'r rolau y dylid eu sicrhau o fewn grwpiau gwahanol yn ddigonol?

Ydw	102	52 y cant
Nac ydw	24	12 y cant
Ddim yn gwybod	13	7 y cant
Dim ymateb	58	30 y cant

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (52 y cant) o'r farn y dylai fod gofynion hyfforddi gwahanol yn ôl y rolau gwahanol a ysgwyddir o fewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae gyda nifer bach (12 y cant) yn anghytuno.

Cafwyd nifer o sylwadau o ran a yw Atodiad C yn adlewyrchu'r rolau y dylid eu sicrhau o fewn grwpiau gwahanol yn ddigonol, gan gynnwys:

- anghytundeb bod angen i unigolion cyfrifol ymgymryd â'r un cwrs deuddydd â'r person â chyfrifoldeb neu reolwr y lleoliad. Mewn llawer o sefydliadau,

mae'r unigolion cyfrifol yn uwch-reolwyr sy'n goruchwylio'r lleoliad ac nid ydynt yn rhan o'r gwaith o weithredu'r lleoliad o ddydd i ddydd nac yn dod i gysylltiad â'r plant

- dylai dirprwy reolwyr/rheolwyr cynorthwyol ac arweinwyr ystafelloedd meithrin ddilyn cwrs Lefel 3 yn hytrach na chwrs Lefel 2
- mae'n bosibl y bydd unigolion wedi ymdrin â'r gofyniad sy'n gymwys i Grwpiau A a B fel rhan o'r cymhwyster gwaith chwarae a gyflawnwyd
- croesawu'r eglurder a ddarperir yn Atodiad C a chytuno ei fod yn adlewyrchu'r rolau y dylid eu sicrhau o fewn y grwpiau gwahanol
- dylid darparu unrhyw hyfforddiant gorfodol am ddim
- mae angen ymdrin ag anghenion diogelu gwahanol plant o oeddrannau gwahanol yn yr hyfforddiant
- mae'n bwysig sicrhau cysondeb â Fframwaith Cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Hyfforddiant Diogelu.

Cwestiwn 6.3 Ydych chi'n cytuno y dylai'r hyfforddiant gorfodol yn Atodiad C fod yn gronnol, h.y. bod yn rhaid cwblhau hyfforddiant Grŵp A cyn hyfforddiant Grŵp B, ac yn y blaen?

Ydw	82	41 y cant
Nac ydw	32	16 y cant
Ddim yn gwybod	20	10 y cant
Dim ymateb	63	32 y cant

Roedd tua hanner yr ymatebwyr (41 y cant) yn cytuno y dylai'r hyfforddiant yn Atodiad C fod yn gronnol ac roedd nifer bach o'r ymatebwyr (16 y cant) yn anghytuno.

Roedd y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- risg uchel o ddyblygu diangen os bydd yr hyfforddiant yn gronnol
- os caiff model cronol ei gyflwyno, bydd angen sicrhau hyfforddiant sy'n ymdrin â'r gwahanol agweddau ar ddiogelu ar gyfer pob grŵp er mwyn osgoi achosion o ddyblygu cynnwys
- gellid cyfuno elfennau grŵp A â hyfforddiant y grwpiau uwch er mwyn symleiddio a darparu hyfforddiant mwy effeithiol
- roedd yr angen am hyfforddiant cronol yn dibynnu ar brofiad y staff unigol ac ni fyddai'r un dull gweithredu yn briodol i bawb
- ymholiadau o ran yr angen i adnewyddu hyfforddiant pob grŵp mor aml â'r hyn a nodir yn Atodiad C Er enghraifft, a oedd angen i staff yn grŵp C adnewyddu eu hyfforddiant grŵp A a B o fewn yr un cyfnod amser ag eraill
- cwestiynau o ran cost – pwy fyddai'n ariannu'r hyfforddiant?

- yr angen am eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol mewn ysgolion/lleoliadau cymunedol am sicrhau bod staff nad ydynt yn darparu gofal plant fel gofalwyr adeiladau/glanhawyr wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol
- yr angen i ystyried effaith dull gweithredu cronol ar y broses o recriwtio gwarchodwyr plant y byddai disgwyl iddynt gwblhau hyfforddiant grŵp A, B a C o fewn eu chwe mis cyntaf.

Cwestiwn 6.4 Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch Diogelu?

Roedd y sylwadau ychwanegol a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- os caiff yr hyfforddiant diogelu gofynnol ei gynnwys fel rhan o'r cymwysterau, byddai'n cefnogi'r effaith ariannol ar ddarparwyr ac ar yr un pryd yn sicrhau bod unigolion sydd newydd gymhwyso sy'n ymuno â'r sector yn meddu ar y cymwysterau diogelu priodol (NDNA)
- Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio modiwlau hunanaddysgu ar-lein. Hyfforddiant wyneb yn wyneb yw'r hyfforddiant diogelu gorau, lle gellir ystyried gwahaniaethau bach o ran ffyrdd o feddwl a'r hyder i roi gwybod am achosion yng nghwmni tiwtoriaid profiadol. Nodwyd hefyd y gall materion diogelu weithredu fel sbardun i unigolion. Byddai bob amser yn well cyflwyno hyfforddiant mewn cyd-destun lle gellir rhoi cymorth i'r unigolyn ar unwaith os bydd angen gwneud hynny (Blynyddoedd Cynnar Cymru)
- pwysigrwydd sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r un hyfforddiant gan y bydd hyn yn sicrhau dealltwriaeth gyffredin wrth fod yn dyst i ddigwyddiad diogelu. Pe na fyddai pob aelod o'm staff yn hyddysg, mae'n bosibl y byddem yn methu pethau gan na fyddent yn ei nodi fel risg ac yn tynnu fy sylw at y mater (Rheolwr lleoliad gofal plant)
- dim ond staff sy'n bresennol pan fydd plant yn y lleoliad ddylai orfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu gorfodol
- sut mae'r gofynion diogelu mewn perthynas â lleoliadau gofal plant yn gydnaws â'r rheini sydd eu hangen mewn ysgolion?
- dylid ariannu cyrsiau diogelu gorfodol

Adran 7 – Diwygiadau Eraill

Cwestiwn 7.1 Oes yna fân-ddiwygiadau eraill y dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu gwneud ar y pwynt hwn? Nodwch yr union safon a'r diwygiad yr ydych yn ei gynnig.

Roedd y diwygiadau ychwanegol a awgrymwyd a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- rhoi mwy o hyblygrwydd yn y cymarebau ar gyfer gwarchodwyr plant er mwyn galluogi gwarchodwr plant i ofalu am fwy na thri phlentyn o dan 5 oed
- byddai eglurhad yn y Safonau o ran sut y gellir helpu darpariaeth awyr agored i ddod yn lleoliad cofrestredig yn fuddiol er mwyn helpu darparwyr i ddod o hyd i atebion arloesol ar gyfer lleoliadau addas
- mwy o bwyslais yn y Safonau ar yr angen i blant dreulio cymaint o amser â phosibl yn yr awyr agored
- os bydd lleoliad yn darparu gofal sesiynol rheolaidd, hyd yn oed am lai na 2 awr, dylai'r gofynion rheoleiddio fod yr un peth â'r gofynion ar gyfer darparwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer cyfnodau dros 2 awr.

Cwestiwn 7.2 Oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol?

Roedd y sylwadau neu'r awgrymiadau ychwanegol a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru at rôl y sector gofal plant a gwaith chwarae wrth sicrhau y caiff hawliau plant eu parchu a chyfeiriodd at bwysigrwydd rôl y sector wrth rannu'r CCUHP a gwybodaeth am hawliau plant â phlant. Awgrymodd y Comisiynydd y gall fod yn ddefnyddiol ystyried sut y caiff y rôl hon ei hadlewyrchu yn y Safonau.
- awgrymwyd y dylid rhoi teitl newydd i'r safonau gan fod angen i leoliadau anelu at ddarparu mwy na dim ond yr hyn sy'n 'ofynnol'. awgrymodd PACEY Cymru y dylid newid y teitl i'r Safonau Ansawdd Cenedlaethol.
- byddai PACEY Cymru yn croesawu ymdrech i ystyried y cymarebau ar gyfer y sector gofal plant a chwarae ehangach.
- dylai'r Safonau fod ar gael drwy ap er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch i leoliadau.
- nododd Chwarae Cymru fod ei ymatebion wedi'u llywio gan y safonau sy'n gymwys i fynediad agored a gyhoeddwyd yn 2002 ac sy'n adlewyrchu'r ddealltwriaeth ac arferion cyfredol.
- mae angen i'r gofynion cofrestru fod yn fwy cymesur gan ddibynnu ar y math o ddarpariaeth e.e. mae'r broses feichus yn atal clybiau ar ôl ysgol rhag cofrestru. Felly, maent yn gweithredu fel lleoliadau anghofrestredig am gyfnod o lai na dwy awr sy'n golygu bod rhieni o dan anfantais gan na allant hawlio cymorth ariannol a bod y clybiau o dan anfantais gan na allant fanteisio ar grantiau a chymorth.
- ymddengys fod anghysondeb rhwng y cymwysterau cymorth cyntaf sydd eu hangen mewn ysgolion o gymharu â lleoliadau gofal plant, ac nid yw'r rhesymau dros yr anghysondeb hwnnw yn eglur.

Adran 8 – Cyfle Cyfartal

Cwestiwn 8.1 Ydy'r safonau presennol yn rhoi digon o sylw i gwestiynau hil a hiliaeth?

Ydyn	93	47 y cant
Nac ydyn	16	8 y cant
Ddim yn gwybod	19	10 y cant
Dim ymateb	68	35 y cant

Roedd tua hanner y cyfranogwyr (47 y cant) o'r farn bod y safonau presennol yn rhoi digon o sylw i gwestiynau hil a hiliaeth. Nifer bach iawn (8 y cant) o'r ymatebwyr oedd yn anghytuno.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynyddu arferion da yn y maes, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol a defnyddio geiriau fel 'ymarfer gwrthwahaniaethol', ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Roedd Mudiad Meithrin o'r farn bod angen rhoi mwy o sylw i hil a hiliaeth yn y safonau, a bod angen rhoi mwy o sylw hefyd i feysydd cydraddoldeb eraill fel anabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd.

Awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, fod anghydraddoldebau o hyd yn cael eu profi gan blant o leiafrifoedd ethnig yn y sector ac argymhellodd y dylai'r safonau dynnu sylw at yr angen penodol i annog lleoliadau i gofnodi digwyddiadau yn ymwneud â hiliaeth neu wahaniaethu yn effeithiol, gan roi gweithdrefnau ar waith ar gyfer sut i ymateb i'r digwyddiadau hyn yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol.

Cwestiwn 8.2 A ddylai cwestiynau hil a hiliaeth gael eu cynnwys yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol?

Dylent	84	42 y cant
Na ddylent	22	11 y cant
Ddim yn gwybod	21	11 y cant
Dim ymateb	69	35 y cant

Roedd tua hanner (42 y cant) yr ymatebwyr o'r farn y dylai cwestiynau hil a hiliaeth gael eu cynnwys yn y Safonau ac roedd nifer bach o'r ymatebwyr (11 y cant) yn anghytuno.

O'r rheini a oedd o blaid, roedd rhai o'r farn y byddai'n briodol i'r Safonau feithrin ethos o barch ac annog dull gweithredu mewn perthynas â chydraddoldeb sy'n gymwys i bob nodwedd warchoddedig. Mae NDNA o'r farn y dylid cyfeirio at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn y Safonau gan y byddai hyn yn sicrhau bod lleoliadau yn cynnwys camau gweithredu'r cynllun yn eu harferion beunyddiol a'u cynlluniau gweithredol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr ymdrechion a'r cynlluniau deddfwriaethol presennol, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn ymdrin â hiliaeth, ac felly nad oes angen cynnwys y mater fel rhan o'r Safonau. Roedd eraill o'r farn y dylid trin pob plentyn ac oedolyn yn gyfartal ac â pharch, ac felly nad oes angen nodi un elfen o fewn y safonau. Mynegodd aelodau Clybiau Plant Cymru bryder y byddai safonau ar wahân yn ymdrin â hil/hiliaeth yn awgrymu nad yw'r safonau eraill yn gynhwysol.

Cwestiwn 8.3 Pa ddiwygiadau y gellid eu gwneud i'r safonau presennol i adlewyrchu newid priodol?

Awgrymodd ymatebwyr y diwygiadau canlynol y gellid eu gwneud i'r safonau presennol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- atgyfnerthu'r cyfeiriadau at Gyfle cyfartal / Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn Safon 16 ac yn nhudalennau cyflwyniadol y safonau er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfle cyfartal, gan groesawu a pharchu amrywiaeth a herio anghyfiawnder fel cysyniad trawsbynciol. Gellid cynnwys gwybodaeth sy'n cymell ymarferwyr i hyrwyddo arferion gwrth-hiliol ac ymdrin â rhwystrau mewn ffordd fwy rhagweithiol fel rhagfarn ymwybodol a rhagfarn ddjarwybod a stereoteipio.
- dylid atgyfnerthu safon 16 i gyfeirio at y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a deddfwriaeth cydraddoldeb.

Cwestiwn 8.4 Oes yna ddiwygiadau eraill y dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu gwneud ar y pwynt hwn o ran Cyfle Cyfartal a/neu anghydraddoldeb hiliol?

Awgrymodd ymatebwyr y diwygiadau eraill canlynol y gellid eu gwneud mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- canllawiau pellach i sicrhau geiriad cynhwysol i bob plentyn yn y canllaw ar Ddatganiadau Diben a gyhoeddir gan AGC
- ystyried datblygu dull gweithredu cynhwysol i bob plentyn gan gynnwys newid geiriad Safon 1.3 sy'n dynodi bod yn rhaid i'r Datganiad o Ddiben gynnwys gwybodaeth am nifer y plant sy'n derbyn gofal a rhyw y plant hynny
- mae angen cydnabod y caiff y Safonau eu diweddarau a'u diwygio yn seiliedig ar anghenion sy'n datblygu, cynrychiolaeth ac arferion da.

Adran 9 – Y Gymraeg

Cwestiwn 9.1 Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau ar y Gymraeg? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Roedd y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn/cwestiynau hyn yn cynnwys y canlynol:

- mae'r newidiadau arfaethedig i Hyfforddiant Cymorth Cyntaf a Hyfforddiant Diogelu gorfodol yn golygu y dylai staff sy'n siarad Cymraeg allu cael yr hyfforddiant hwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bosibl y bydd sicrhau hyn yn rhoi baich ariannol pellach ar leoliadau, yn ogystal â chyfyngiadau o ran amser ac argaeledd.
- dylai'r newidiadau arfaethedig i Safonau 13 (person addas) ac 15 (cymarebau staffio) gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd a helpu i ymdrin â rhai o'r heriau penodol o ran recriwtio a chadw staff cyfrwng Cymraeg
- dylid ystyried sut y gellid atgyfnerthu'r Safonau er mwyn sicrhau datblygiad y Gymraeg. Er enghraifft, gellid ystyried datblygu safon benodol i gefnogi'r broses o roi Mwy na Geiriau ar waith mewn lleoliadau Gofal Plant a Chwarae.

Cwestiwn 9.2 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Awgrymodd ymatebwyr sawl maes i'w trafod ymhellach, gan gynnwys y canlynol:

- yr angen am fwy o waith ymgysylltu uniongyrchol â darparwyr gofal plant yn hytrach na dibynnu bob amser ar adborth gan gyrrff cynrychioliadol
- mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn i staff yn y sector cyfrwng Saesneg gael hyfforddiant Cymraeg
- mwy o waith ymgysylltu â theuluoedd er mwyn iddynt allu mynegi eu dymuniadau o ran gofal plant.

Y Camau Nesaf

Nawr ein bod wedi dadansoddi'r ymatebion, rydym yn bwriadu mireinio manylion y newidiadau arfaethedig gan ddefnyddio mewnbyn gan ein partneriaid (awdurdodau lleol, sefydliadau ambarél gofal plant a chwarae yng Nghymru). Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Safonau a'r canllawiau cysylltiedig yn cefnogi'r sector gofal plant a chwarae drwy ddarparu canllawiau clir ar gyfer bodloni gofynion perthnasol y safonau a'r rheoliadau.

Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr⁵

Amanda Davies – Gwarchodwr Plant

Cymdeithas Chwarae Llandeilo Ferwallt

Meithrinfa Ddydd Bright Start

Brighter Minds Childcare Ltd

Meithrinfa Building Blocks

Meithrinfa Ddydd Neuadd Eglwysig Caego a Berse

CBS Caerffili

Meithrinfa Little Scholars Prifysgol Caerdydd

Lleoliad Cyn-Ysgol a Meithrinfa Cas-bach

Gwarchodwyr Plant

Plant yng Nghymru

Comisiynydd Plant Cymru

AGC

Claudette Fleming – Gwarchodwr Plant

Clybiau Plant Cymru

Gofal Plant Cwtch

Cylch Meithrin Trelái

Gofal Plant Doodles

Gofal Cymdeithasol Cymru

Blynyddoedd Cynnar Cymru

Gofal Plant Four Seasons

Fun Foundations Day Nursery Limited

Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Little Stars

Little Stars (Deeside) LTD

Meithrinfa Cwtsh y Clos

Melanie Phillips – Gwarchodwr Plant

⁵ Dylid nodi nad yw'r rhestr ganlynol o ymatebwyr yn gynhwysfawr. Dim ond yr ymatebwyr na ofynnodd i'w hymateb fod yn gyfrinachol sydd wedi'u cynnwys.

Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg Merthyr Tudful

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)

Meithrinfa Gymunedol Paradise

CBS Sir Benfro

Chwarae Cymru

Pro Care & Support Services Ltd yn masnachu fel Meithrinfa Penrhiw

Dechrau'n Deg St. Helen's Cygnets

Supertots

Susan G Lloyd – Gwarchodwr Plant

Meithrinfa Ddydd Tiggywinkles

Gofal Plant Tir Na Nog, Prifysgol Bangor

Woodpeckers

Cylch chwarae WOODVILLE